

NATIONAL CHURCHES TRUST

**Budd am byth.**

# MAE POB EGLWYS O BWYS

## CYNLLUN CHWE PHWYNT I ACHUB ADEILADAU EGLWYSIG Y DEYRNAS UNEDIG

#MaePobEglwysOBwys

nationalchurchestrust.org/everychurchcounts



# EGLWYSI MEWN PERYGL

Eglwys Sant Nicolas, Newbury, Berkshire

© Shutterstock

# CYFLWYNIAD

## Mae gan y Deyrnas Unedig rai o'r eglwysi, capeli ac addoldai mwyaf hanesyddol a hardd sydd i'w cael yn unrhyw le yn y byd.



**Syr Philip Rutnam KCB, Cadeirydd**



**Claire Walker, Prif Weithredwr**

Ein hadeiladau eglwysig yw'r sylfaen bwysicaf o lawer ar gyfer gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol ym Mhrydain, hefyd – gweithgareddau o bob math bron, ond pob un ohonynt yn lleihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, yn adeiladu ysbryd cymunedol, ac yn cyfoethogi ein bywydau diwylliannol.

Ers canrifoedd, maent wedi gwasanaethu ystod eang o enwadau Cristnogol ac wedi bod yn fannau ar gyfer nodi digwyddiadau bywyd megis genedigaethau, priodasau a marwolaethau. Hefyd, dyma lle mae adegau allweddol mewn hanes cenedlaethol a lleol yn cael eu dathlu a'u coffáu, yn fwyaf diweddar gyda choroni'r Brenin Siarl III.

### Heddiw, mae ein heglwysi mewn mwy o berygl nag erioed o'r blaen.

Mae gan 20,000 o adeiladau eglwysig y Deyrnas Unedig statws rhestredig statudol fel y rhannau pwysicaf o'n treftadaeth. Ac mae'r eglwysi a'r capeli hynny'n cynnwys bron hanner adeiladau hanesyddol pwysicaf Prydain (Gradd I neu gyfwerth).

### Treftadaeth mewn perygl

Ond mae prinder enbyd o arian i ofalu am y dreftadaeth hon. Mae toeau'n gollwng, mae tyrau'n dadfeilio ac mae lloriau'n cwympo.

O ganlyniad, mae dros 900 ar Gofrestr Treftadaeth Mewn Perygl Historic England.

Yng Nghymru, mae tua chwarter yr eglwysi a chapeli hanesyddol wedi cau yn y degawd diwethaf, ac mae cynifer bellach mewn perygl.

Mae Eglwys yr Alban – sy'n warcheidwad llawer o adeiladau pwysicaf y wlad – wrthi'n cynllunio i gau cymaint â 40% o'i heglwysi.

Mae'r baich o gadw'r adeiladau hyn ar agor bron yn gyfan gwbl ar gynulleidfaoedd – sef y bobl sy'n mynychu gwasanaethau mewn gwirionedd. Nid yw'r Llywodraeth na'r enwadau cenedlaethol yn darparu cyllid rheolaidd ar gyfer cost atgyweirio adeiladau eglwysig, beth bynnag fo'u harwyddocâd. Cost yr ôl-groniad o atgyweiriadau ar gyfer eglwysi Eglwys Loegr yw o leiaf £1 biliwn, ac amcangyfrifir bod angen £150 miliwn y flwyddyn bob blwyddyn.

Yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol yw'r elusen ar draws y Deyrnas Unedig sy'n cefnogi adeiladau eglwysig o bob enwad. Rydym wedi bod yn gwneud hyn ers dros ddau gan mlynedd. Y llynedd, roedd modd inni helpu dros 250 o brosiectau adeiladu eglwysig gyda chyllid o bron £2 filiwn.

Ein gweledigaeth yw y caiff adeiladau eglwysig ledled y Deyrnas Unedig eu cynnal a'u cadw'n dda, eu bod yn agored i bawb, yn gynaliadwy ac yn cael eu gwerthfawrogi. Heddiw, mae ein gwaith yn ehangu i gwrdd â'r heriau sydd o'n blaenau. Ond ni allwn ddatrys y broblem ar ein pennau ein hunain.

### Cadw eglwysi ar agor

Wrth gwrs, ni all un gweithredydd unigol ddatrys y broblem. Dyna pam mai'r hyn sydd ei angen yn anad dim yw cynllun cenedlaethol, a gaiff ei lunio gan y Llywodraeth, sefydliadau treftadaeth a'r enwadau.

Cynigia 'Mae Pob Eglwys o Bwys' lasbrint ar gyfer dyfodol adeiladau eglwysig y Deyrnas Unedig. Mae'n nodi syniadau a all helpu i'w cadw ar agor a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio, er budd pawb.

Gyda 66% o oedolion y Deyrnas Unedig yn dweud eu bod yn meddwl bod eglwysi'n bwysig i gymdeithas, a 68% yn dweud eu bod yn rhan bwysig o'n treftadaeth a'n hanes (yn ôl arolwg barn ym mis Rhagfyr 2023), rydym yn hyderus bod y cyhoedd yn llethol o blaid achub eglwysi'r DU ar gyfer y dyfodol.

Felly, gadewch i ni gymryd y safbwynt tymor hir, a gweithredu gyda'n gilydd i wneud yn siŵr bod y lleoedd hanesyddol, pwrpasol a rhyfeddol hyn yn parhau i fod mewn cyflwr da, yn groesawgar ac yn ddefnyddiol am genedlaethau i ddod.




**St Lawrence, Bardney, Swydd Lincoln**

# ACHUB TREFTADAETH ANHYGOEL

**Mae eglwysi, capeli ac addoldai yn perthyn i dreftadaeth bwysicaf y Deyrnas Unedig. Mae bron 20,000 o eglwysi, capeli ac addoldai rhestredig yn y DU sydd ar agor ar gyfer addoli.**

Roedd 943 o addoldai ar Gofrestr Treftadaeth Mewn Perygl Historic England yn 2023, sef cynnydd o 24 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cafodd 29 eu tynnu ond ychwanegwyd 53 arall.

Yn arwyddocaol, er mai dim ond pump y cant o'r adeiladau rhestredig yn Lloegr (pob gradd) yw eglwysi, eglwysi yw tua hanner yr adeiladau rhestredig gorau (y rhai a restrir ar Radd I).

Yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae eglwysi'n allweddol i'r hyn sy'n gwneud llawer o dirweddau'n hardd, ac maent hefyd yn bwysig i hunaniaeth weledol trefi a dinasoedd, gan helpu i atgyfnerthu hunaniaeth leol a chreu ymdeimlad o le.



**Tîm cynnal a chadw Eglwys Crist, Surbiton Hill**

© Andy Sillett

# EGLWYSI – HER DREFTADAETH BWYSICAF Y DU

***"Ar hyn o bryd, mae llawer o adeiladau eglwysig mewn perygl o gau. Mae'r ymgyrch 'Mae Pob Eglwys o Bwys' yn cynnig amrywiaeth o ffyrdd y gellir diogelu dyfodol eglwysi, capeli ac addoldai'r Deyrnas Unedig.***

*Mae mwy a mwy o eglwysi yn addasu i fodloni anghenion eu cymunedau, gan ddarparu nid yn unig cysur ysbrydol ond hefyd ystod o wasanaethau gwerthfawr i bobl leol, megis banciau bwyd a mannau cynnes, ac yn helpu i frwydro yn erbyn melltith unigrwydd.*

*Mae eglwysi hefyd yn rhan hanfodol o hanes y Deyrnas Unedig, ac mae angen i ni weithredu nawr i atal colli treftadaeth leol hynod bwysig.*

*Os ydych chi'n poeni cymaint am ddyfodol yr adeiladau poblogaidd hyn ag yr wyf fi, fe welwch fod ymgyrch 'Mae Pob Eglwys o Bwys' yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol yn cynnig ffordd ymlaen i'r adeiladau gwych hyn."*




**Syr Michael Palin CBE**

Is-lywydd, yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol




Eglwys ar werth yn Shortwood ger Nailsworth, Swydd Gaerloyw

© Adrian Sherratt / Llun Stoc Alamy

# Mae 3,500 o eglwysi wedi cau yn y 10 mlynedd diwethaf

Ffynhonnell: Brierley Research

"Fury at plans to close Christ Church"

Brent and Kilburn Times, 24 Hydref 2023

"Up to 700 churches predicted to close across Scotland"

The Scotsman, 11 Tachwedd 2023

"Powys church to close after more than 150 years"

Powys County Times, 20 Ebrill 2023

"Church of England parishes close at a record rate"

The Daily Telegraph, 2 Medi 2023

"Final village church service brings 800 years of worship to an end"

Hornsea and Holderness Gazette, 2 Chwefror 2023

# YR HYN SYDD ANGEN EI WNEUD

**1** ***Cymorth i wirfoddolwyr arwrol***
*Mae angen creu rhwydwaith o swyddogion cymorth proffesiynol ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan i helpu'r gwirfoddolwyr, gan gynnwys clerigwyr, sy'n gofalu am adeiladau eglwysig. Gallai'r cymorth hwn hefyd gynnwys adeiladau sy'n perthyn i grefyddau eraill. Gallai gwasanaethau a ddarperir yn fwy canolog y gall eglwysi ddewis manteisio arnynt fod o fudd hefyd.*

**2** ***Ein Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol***
*Dylai'r Llywodraeth ofyn i bob awdurdod lleol a chorff cyhoeddus fel y GIG ymgysylltu â grwpiau ffydd a gwneud mwy o ddefnydd o eglwysi a neuaddau eglwysi i gynnal gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol, gan helpu i uwchraddio cyfleusterau lle bo angen.*

**3** ***Cyllid i achub treftadaeth amhrisiadwy***
*Er mwyn helpu i sicrhau bod eglwysi'r Deyrnas Unedig ar agor a'u bod yn gwasanaethu pobl leol, ac er mwyn achub eu treftadaeth ar gyfer y dyfodol, mae angen o leiaf £50 miliwn o gyllid cyhoeddus ychwanegol wedi'i glustnodi ar gyfer gwaith atgyweirio sylweddol, gyda chyllid cymesur yn cael ei ddarparu ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig. Byddai cynllun arian cyfatebol cenedlaethol yn helpu i gymell rhoddion elusennol a dyngarwch preifat.*

**4** ***Ar y map i ymwelwyr***
*Dylai'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan weithio gyda'r prif sefydliadau twristiaeth cenedlaethol, gomisiynu astudiaeth genedlaethol ynghylch sut i wneud mwy o dreftadaeth heb ei hail eglwysi'r Deyrnas Unedig.*

**5** ***Eglwysi yn agored i bawb***
*Mae angen i adeiladau eglwysig fod ar agor yn rheolaidd y tu allan i amseroedd addoli i gyflawni eu potensial ym mywyd cymunedau, o fewn cyfyngiadau'r hyn sy'n iawn i'r ardal leol.*

**6** ***Sicrhau newid***
*Mae angen i'r Llywodraeth, sefydliadau treftadaeth ac enwadau gymryd camau brys. Mae hyn yn mynnu cydgysylltu ac arweinyddiaeth. Bydd newid hirdymor hefyd yn gofyn am fwy o eiriolaeth a thystiolaeth: mae gan bawb sy'n defnyddio, yn caru neu'n cefnogi adeiladau eglwysig ran i'w chwarae.*




# 1

# CYMORTH I WIRFODDOLWYR ARWROL

**"Gofalir am bron pob eglwys leol gan wirfoddolwyr sy'n gyfrifol am ddyfodol casgliad mwyaf y Deyrnas Unedig o adeiladau hanesyddol a'u cynnwys."**

Sant Macartan (Capel Forth), Augher, Sir Tyrone, Gogledd Iwerddon

© Cyngor Canol Ulster

Mae cynnal a chadw eglwys hardd a hanesyddol Sant Macartan (Capel Forth), sydd wedi'i lleoli mewn gwerthyr Gwyddelig cynnar yn Augher, Sir Tyrone yng Ngogledd Iwerddon, yn bwysig iawn i'r plwyf. Maent yn gweithio i gadw'r eglwys ar agor ac mewn cyflwr da drwy gydol y flwyddyn.

***"Mae gennym gymaint o falchder yn eglwys Sant Macartan oherwydd ei hoedran a'i hanes. Fel cymuned a phlwyf, mae gennym ddyletswydd i gynnal a chadw'r eglwys hardd hon."***

**Staff cyflogedig sy'n gofalu am lawer o adeiladau hanesyddol y Deyrnas Unedig, fel y rhai sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a sefydliadau treftadaeth eraill, yn ogystal ag eiddo preifat sy'n agored i'r cyhoedd. Fodd bynnag, gwirfoddolwyr sy'n gofalu am bron bob eglwys, capel ac addoldy lleol. Y bobl hyn sy'n gyfrifol am ddyfodol casgliad mwyaf y DU o adeiladau hanesyddol a'u cynnwys.**

Yn aml, nid yw'r gwirfoddolwyr hyn, y mae llawer ohonynt yn hŷn, wedi cael hyfforddiant proffesiynol mewn cynnal a chadw adeiladau neu godi arian. Felly hefyd y rhan fwyaf o glerigwyr, y mae rhai ohonynt yn eu cael eu hunain yn gyfrifol am nifer o adeiladau eglwysig hanesyddol. Mae lefel y gefnogaeth a gânt gan eu henwad cenedlaethol neu ar lefel ranbarthol neu esgobaethol yn amrywio'n aruthrol.

O ganlyniad, gellir gohirio delio â phroblemau syml hyd yn oed, fel clirio cwteri neu ailosod teils sydd wedi llithro, neu beidio â delio â nhw o gwbl. Ond mae gofal a chynnal a chadw adeiladau eglwysig o ddydd i ddydd yn hollbwysig i'w dyfodol. Fel y dywedodd William Morris ym 1877, mae angen i'r rhai yr ymddiriedir hen adeiladau iddynt 'atal pydredd trwy ofal dyddiol'.

Mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos y gall peidio â gofalu am adeiladau eglwysig heddiw arwain at gostau llawer uwch yn y dyfodol, sef achos gwirioneddol o 'bwyth mewn pryd'[1]. Mae gwaith cynnal a chadw rheolaidd hefyd yn ffordd bwysig o leihau allyriadau carbon, gan ei fod yn lleihau drafftiau, yn gwella eu perfformiad o ran ynni ac yn sicrhau bod gwres yn cael ei gadw y tu mewn.

Mae cadw adeiladau eglwysig mewn cyflwr da fel y gellir parhau i'w defnyddio ar gyfer addoli a gweithgarwch cymunedol yn un ffordd o leihau allyriadau carbon o waith adeiladu newydd. Mae carbon eisoes wedi'i ollwng i adeiladu eglwysi ac mae parhau i'w defnyddio'n golygu nad oes unrhyw allyriadau newydd yn cael eu cynhyrchu.

***"Rhaid i gorff o wirfoddolwyr parod fod ar gael i ymdrin â materion bob dydd yn ymwneud â gofalu am eglwysi. Heb y bobl hyn, mae'n anochel y caiff yr adeilad a'i gyllid eu hesgeuluso, a byddant yn dadfeilio."***

**Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, Awst 2023**




**Dwstio beddrod yn eglwys Priordy'r Santes Fair, Y Fenni, Sir Fynwy**

# YR HYN RYDYM YN EI WNEUD

1. *Diolch i grant o £1.9m gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF), rhwng 2023 a 2026, bydd ein prosiect 'Cherish' newydd yn helpu eglwysi a chapeli yng Nghymru, yr Alban, a Gogledd Orllewin Lloegr trwy leoli swyddogion cymorth penodedig. Mae hyn yn adeiladu ar 'Treasure Ireland', ein prosiect a gefnogir gan yr NLHF yng Ngogledd Iwerddon.*
2. *Mae ein Gwobrau Eglwysi Cenedlaethol – 'y BAFTAs ar gyfer eglwysi' – yn dathlu eglwysi'r Deyrnas Unedig, o'r adeiladau hardd i'r gwirfoddolwyr ymroddedig sy'n eu cadw ar agor ac yn gwasanaethu pobl leol.*
3. *Rydym yn darparu cwricwlwm cynyddol o hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb i gefnogi'r bobl sy'n gofalu am adeiladau eglwysig.*



**Gosod panel ffenestr wydr lliw newydd â thema'r Rhyfel Byd Cyntaf**

© David G / Stockimo / Llun Stoc Alamy




**Torri'r glaswellt ym mynwent eglwys y Santes Fair, Whitby, Gogledd Swydd Efrog**

# 1 CYMORTH I WIRFODDOLWYR ARWROL

## YR HYN SYDD ANGEN EI WNEUD

**Mae angen creu rhwydwaith o swyddogion cymorth proffesiynol ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan i helpu'r bobl sy'n gofalu am adeiladau eglwysig a mynwentydd eglwysi. Dylai rhwydwaith o'r fath weithio ar draws pob enwad, gan osgoi dyblygu ymdrech yn ddiangen. Gallai'r cymorth hwn hefyd gynnwys adeiladau sy'n perthyn i grefyddau eraill.**

Mae'r gwirfoddolwyr sy'n helpu i gadw adeiladau eglwysig y Deyrnas Unedig mewn cyflwr da angen cyngor arbenigol ac yn aml, cymorth ychwanegol o ran gwaith cynnal a chadw, atgyweiriadau cyfalaf, codi arian, ac ehangu'r ystod o ddefnyddiau.

Un o argymhellion allweddol Adolygiad Taylor 2017 i gynaliadwyedd eglwysi Eglwys Loegr oedd yr angen am fwy o gefnogaeth broffesiynol. Mae cynlluniau peilot wedi profi dulliau newydd yn llwyddiannus[2].

Darperir cymorth eisoes mewn rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig. Mae Historic England yn cynorthwyo gyda chostau cyflogi swyddogion cymorth, ac mae Eglwys Loegr yn cynyddu nifer ei Swyddogion Cymorth Eglwysi Esgobaethol. Ond mae'r cymorth sydd ar gael yn dameidiog, ac nid yw'n cwmpasu pob rhan o'r wlad. Mae'r rhan fwyaf o swyddogion cymorth esgobaethol ar gontractau tymor byr, ac nid yw'n glir a fydd cyllid ar gael i'w hymestyn.

Gallai mwy o adnoddau a hyfforddiant ar-lein a chymhwyster treftadaeth eglwysig cysylltiedig ddod â chymorth i'r oes ddigidol a denu pobl newydd. Yn yr un modd, gallai gwasanaethau a ddarperir yn fwy canolog y gall eglwysi ddewis manteisio arnynt helpu hefyd.

Mae miloedd o bobl yn ymwneud yn weithredol â gofalu am dreftadaeth y Deyrnas Unedig, gan gynnwys camlesi a dyfrffyrdd, rheilffyrdd treftadaeth a thai hanesyddol. O gael y gefnogaeth gywir, gall mwy o bobl gymryd rhan mewn helpu eglwysi hefyd.

**I'W WEITHREDU GAN: Enwadau a chyrff treftadaeth**

2

# EIN GWASANAETH CYMORTH CENEDLAETHOL




**"Mae adeiladau eglwysig yn darparu gwerth cymdeithasol ac economaidd o o leiaf £55 biliwn y flwyddyn."**

Pantri Dros Dro yn eglwys Sant Steffan, Bradford

© Eglwys Sant Steffan

Ryw 20 mlynedd yn ôl, roedd eglwys Sant Steffan yn Bradford i fod i gael ei dymchwel. Ond diolch i waith caled y Parchg Jimmy Hinton, ficer newydd, fe'i cadwyd ar agor.

***"Mae'r eglwys yn ffynnu bellach, gyda grwpiau ffoaduriaid, clwb swyddi, grwpiau cymorth galw heibio, banc dillad plant, a llawer, llawer mwy. Mae'r rhan fwyaf o bobl yr ardal yn dod o gefndir Mwslemaidd Pacistanaidd, ond mae pawb," meddai'r Parchg Jimmy, "yn ei galw'n heglwys ni."***



© Alex Ramsay / Llun Stoc Alamy

**Cerddor yn ymarfer yn eglwys Sant Andras, Llanandras**

**Fel eglwys Sant Steffan, mae llawer o eglwysi, capeli ac addoldai lleol ledled y Deyrnas Unedig yn helpu cymunedau i oroesi a ffynnu. Yn aml, eglwysi yw'r rhai cyntaf i ymateb i angen lleol. Diolch i waith anhygoel miloedd lawer o wirfoddolwyr, drwy'r dydd bob dydd, nhw yw Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol y DU. Maent hefyd yn chwarae rhan hanfodol ar adegau o argyfwng lleol a chenedlaethol megis stormydd a llifogydd, neu'n cefnogi pobl sy'n ffoi rhag rhyfeloedd.**

Diolch i'r gefnogaeth a ddarperir i bobl leol – o fanciau bwyd i ofal iechyd meddwl ac o glybiau ieuenctid i gwnsela cyffuriau ac alcohol – mae adeiladau eglwysig yn darparu gwerth cymdeithasol ac economaidd o o leiaf £55 biliwn y flwyddyn – mae hynny tua dwbl cyfanswm y gwariant ar ofal cymdeithasol oedolion gan awdurdodau lleol[3].

Mae eglwysi hefyd yn lleoliadau ar gyfer ystod eang o weithgareddau diwylliannol, gan gynnwys canu clychau, cyngherddau gan gorau a cherddorfeydd, arddangosfeydd a pherfformiadau; mae llawer hefyd yn orsafoedd pleidleisio ar gyfer etholiadau lleol a chyffredinol.

Nododd Adroddiad Bloom, 'Does Government do God?,' sef adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan y Llywodraeth ac a gyhoeddwyd yn 2023, o leiaf 22 o weithgareddau cymunedol sy'n digwydd mewn eglwysi a mannau addoli eraill[4].

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer fawr o adeiladau cymunedol wedi cau; mae eglwysi mewn sefyllfa dda i gael eu defnyddio gan gynghorau lleol a gwasanaethau cymunedol lleol eraill. Er na all pob eglwys neu gapel ddod yn ganolbwynt cymunedol, mae llawer o adeiladau eglwysig gyda chapasiti dros ben y gellid eu defnyddio er budd cymunedau lleol.

***"Trwy agor adeiladau crefyddol at ddibenion eraill ac annog llawer mwy o bobl i'w defnyddio, mae mwy o siawns o allu cadw'r adeilad."***

**Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, Awst 2023**



ImageryBT / Llun Stoc Alamy

**Banc Bwyd yn eglwys y Drindod, Colindale, Llundain**

## YR HYN RYDYM YN EI WNEUD

1. *House of Good – Lleol. Rydym yn datblygu pecyn cymorth a fydd yn galluogi eglwysi i fesur eu gwerth economaidd a chymdeithasol a dangos eu cyfraniad i fywyd lleol i gymunedau lleol, cynghorau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill.*
2. *Mae ein grantiau ar gyfer cyfleusterau modern, megis toiledau, ceginau ac ystafelloedd arlwyo, yn galluogi eglwysi i drefnu neu gynnal amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol.*
3. *Rydym yn cynnal ymchwil newydd i fesur y rôl bwysig a chwaraeir gan eglwysi wrth gefnogi gwirfoddolwyr a darparu cefnogaeth leol a gweithgareddau eraill.*


© Eglwys Sant Steffan

**Cylch Chwarae Little Dots yn eglwys Sant Steffan, Bradford**

**Mae 66%** o oedolion y DU yn cytuno bod **eglwysi, capeli** ac **addoldai** yn bwysig i gymdeithas

Arolwg barn Savanta, Rhagfyr 2023

© Eglwys y Galon Sanctaidd

**Lloches nos yn eglwys y Galon Sanctaidd, Tamworth**

# 2 EIN GWASANAETH CYMORTH CENEDLAETHOL

## YR HYN SYDD ANGEN EI WNEUD

**Dylai'r Llywodraeth ofyn i bob awdurdod lleol a chorff cyhoeddus fel y GIG ac adrannau'r Llywodraeth ymgysylltu â grwpiau ffydd a gwneud mwy o ddefnydd o eglwysi a neuaddau eglwys i gynnal gwasanaethau cymunedol, gan helpu i uwchraddio cyfleusterau lle bo angen.**

Mae 38,500 o adeiladau eglwysig yn y Deyrnas Unedig. Mae hynny'n cymharu â 3,700 o lyfrgelloedd cyhoeddus, 11,600 o swyddfeydd post, ac 8,100 o feddygfeydd. Mae eglwys ym mhob pentref bron, gyda llawer mwy yn ein trefi a'n dinasoedd.


Gellir cynnwys mwy o adeiladau eglwysig wrth gynllunio a darparu ystod eang o wasanaethau lleol, i gynnal meddygfeydd y GIG, clybiau swyddi a chanolfannau cynghori. Gall rhagnodi cymdeithasol gan feddygon teulu, nyrsys a gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol eraill gyfeirio mwy o bobl at wasanaethau iechyd a lles sydd eisoes yn cael eu cynnal mewn eglwysi. Gall busnesau cymunedol hefyd ddod o hyd i gartref mewn adeiladau eglwysig.

Un ffordd o gyflawni hyn yw trwy berthnasoedd gwell ar lawr gwlad, megis swyddogion ffydd a gyflogir gan gynghorau lleol neu drwy gynnwys cynrychiolwyr ffydd ar fyrddau Cynlluniau Gweithredu Ardaloedd Canol Trefi. Bydd hyn hefyd yn helpu i annog deialog rhwng crefyddau.

Mae diffyg cyfleusterau cyfoes, fel toiledau a cheginau, mewn rhai eglwysi. Yn aml, adeiladau mewn ardaloedd difreintiedig yw'r rhain. Gall buddsoddiad i wella seilwaith adeiladau eglwysig gan gynghorau lleol a chyrff cyhoeddus eraill alluogi mwy i gynnal gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol. Er enghraifft, mae cynllun grant cyfalaf y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a weithredir gan Lywodraeth Cymru yn darparu cyllid i wella cyfleusterau cymunedol mewn adeiladau a ddefnyddir yn helaeth gan bobl leol[5].

Mae'r Cyfamod Ffydd, sef menter gan y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Ffydd a Chymdeithas[6], yn darparu fframwaith da ar gyfer hyrwyddo gweithio agored ac ymarferol, ac mae'r defnydd ohono'n cynyddu. Dylai mwy o awdurdodau lleol fabwysiadu'r cyfamod.

**I'W WEITHREDU GAN: Lywodraeth (y DU a llywodraethau datganoledig), awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus**



# 3

# ACHUB TREFTADAETH AMHRISIADWY

**"Heb gefnogaeth ariannol gan y Llywodraeth, bydd mwy a mwy o eglwysi yn cau."**

**Eglwys yr Holl Saint, Burstwick, Traean Dwyreiniol Swydd Efrog**

© Jonathan Sumpton / Llun Stoc Alamy

Ar 1 Chwefror 2023, ymgasglodd plwyfolion yn Eglwys yr Holl Saint, Burstwick, yn Nhraean Dwyreiniol Swydd Efrog, ar gyfer y gwasanaeth olaf cyn i'r adeilad 800 oed gau am byth. Mae'r eglwys restredig Gradd I yn dyddio o'r 13eg ganrif, ond fe'i gorfodwyd i gau ei drysau gan ei bod yn rhy anodd dod o hyd i'r £250,000 oedd ei angen i dalu am atgyweiriadau brys, gan gynnwys atgyweirio'r to.

***"Roedd pobl yn eu dagrau, rydym wedi cael llawer o emosiwn, roedd yn drist iawn, iawn, mae wedi bod yn dreftadaeth y pentref ers dros 800 o flynyddoedd."***

**Mae Eglwys yr Holl Saint yn un o nifer cynyddol o eglwysi hanesyddol sy'n cael eu gorfodi i gau oherwydd na allant ddod o hyd i'r arian sydd ei angen i gadw eu hadeilad yn wyntglos a dyfrglos. Mae newid hinsawdd yn achosi mwy o broblemau i adeiladau eglwysig gan na all toeau, cwteri a pheipiau dŵr presennol ymdopi â glawiad amlach a thrymach.**

Cost yr ôl-groniad o ran atgyweirio adeiladau eglwysig sy'n perthyn i Eglwys Loegr yn unig yw o leiaf £1 biliwn, a'r gost flynyddol gyfartalog ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio eglwysi plwyf yw £150 miliwn[7]. Mae problemau ariannu yn aml ar eu huchaf yn yr union fannau lle mae'r angen mwyaf difrifol hefyd – sef trefi arfordirol, hen ardaloedd diwydiannol, a'r rhannau mwyaf difreintiedig o'n dinasoedd.

Mae 943 o addoldai ar Gofrestr Treftadaeth mewn Perygl Historic England 2023, sef cynnydd o 24 ers 2022[8]. Mae llawer o rai eraill mewn cyflwr peryglus yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Er bod llawer o gynulleidfaoedd yn codi llawer o'r arian sydd ei angen i dalu am atgyweiriadau eu hunain, nid yw'n realistig i gost gwaith sylweddol gael ei hysgwyddo'n lleol yn unig. Yn wahanol i wledydd Ewropeaidd, yn y Deyrnas Unedig, nid yw'r Llywodraeth yn darparu unrhyw gyllid rheolaidd ar gyfer atgyweirio adeiladau eglwysig.

Cyflwynwyd cymorth gwladwriaethol ar gyfer eglwysi hanesyddol ym 1977. Cafodd y grantiau hyn effaith fawr: erbyn 2004, roeddent yn werth tua £50 miliwn y flwyddyn (yn arian heddiw). Parhaodd grantiau wedi'u clustnodi ar gyfer eglwysi mewn ffurfiau amrywiol am y 40 mlynedd nesaf tan 2017.

Ar hyn o bryd, gall llawer o eglwysi elwa o allu hawlio'n ôl y TAW a delir ar atgyweiriadau. Nid yw'r ad-daliad treth hwn ar gael i eglwysi heb eu rhestru.

Heb gymorth ariannol rheolaidd gan y Llywodraeth, a mwy o gyllid gan sefydliadau treftadaeth, enwadau ac ymddiriedolaethau dyngarol, bydd mwy a mwy o eglwysi yn cau os na allant dalu am atgyweiriadau. Bydd hyn yn golygu dyfodol ansicr i adeiladau gwerthfawr, symbolau o obaith a pharhad, a cholli'r gefnogaeth gymunedol y maent yn ei darparu.

***"Mae cymunedau eglwysig yn gofalu'n fawr am eu hadeiladau, ond yn syml iawn, nid oes ganddyn nhw'r adnoddau i'w hatgyweirio na'u cynnal heb arian allanol, yn enwedig yn ardaloedd mwy difreintiedig y wlad."***

**Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, Awst 2023**



© CMH Images / Llun Stoc Alamy

Trwsio'r to yn Eglwys yr Holl Saint, Ffordd y Parc, y Barri

## YR HYN RYDYM YN EI WNEUD

1. *Trwy ein cynllun grantiau, ers 1953, rydym wedi rhoi dros £130 miliwn (yn arian heddiw) i eglwysi sy'n perthyn i holl brif enwadau'r Deyrnas Unedig.*
2. *Yn 2023-2024, diolch i haelioni dyngarwr treftadaeth, rydym yn codi £1 miliwn mewn cynllun arian cyfatebol i helpu 18 o 'Eglwysi Cyfle Olaf'.*
3. *Bydd ein rhaglen 'Cherish' newydd, mewn partneriaeth â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn darparu £900,000 o grantiau ar gyfer adeiladau eglwysig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Orllewin Lloegr dros y tair blynedd nesaf.*



Gwaith cynnal a chadw eglwys

© Yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol

**Mae 68%** o oedolion y Deyrnas Unedig yn cytuno bod **eglwysi, capeli** ac **addoldai** yn rhan bwysig o dreftadaeth a hanes y DU

Arolwg barn Savanta, Rhagfyr 2023

# 3 ACHUB TREFTADAETH AMHRISIADWY

## YR HYN SYDD ANGEN EI WNEUD

**Er mwyn helpu i gadw eglwysi'r DU ar agor a sicrhau eu bod yn gwasanaethu pobl leol, ac er mwyn achub eu treftadaeth ar gyfer y dyfodol, mae angen o leiaf £50 miliwn o gyllid cyhoeddus ychwanegol wedi'i glustnodi ar gyfer gwaith atgyweirio sylweddol, gyda chyllid cymesur yn cael ei ddarparu ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig. Byddai cynllun arian cyfatebol cenedlaethol yn helpu i gymell rhoddion elusennol.**

Byddai cyllid cyhoeddus ychwanegol yn cael ei glustnodi ar gyfer mannau addoli ac ar gael yn gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn ffordd debyg i'r cynllun Grantiau ar gyfer Mannau Addoli llwyddiannus a gafodd ei redeg gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol tan 2017. Dylai'r cyllid fod ar gael mewn ffordd sy'n bodloni anghenion eglwysi a chapeli, sydd yn aml yn sefydliadau bach iawn.

Yng Nghymru a'r Alban, byddai'r cyllid hwn hefyd ar gael i ddiogelu treftadaeth y nifer cynyddol o adeiladau eglwysig sy'n eiddo i'w cymunedau lleol.

Mae hefyd yn hanfodol bod y Cynllun Grantiau Mannau Addoli Rhestredig, sy'n caniatáu i eglwysi rhestredig adennill y TAW ar atgyweiriadau, yn cael ei ymestyn y tu hwnt i 2025 cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu i eglwysi gynllunio prosiectau yn y dyfodol gyda sicrwydd ynghylch anghenion ariannol y dyfodol.

Mae achub adeiladau eglwysig yn gwneud synnwyr ariannol. Roedd adroddiad 'The House of Good', a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol yn 2021, yn dangos tystiolaeth bod elw cymdeithasol ar fuddsoddiad o £16[9] am bob punt a fuddsoddir mewn adeiladau eglwysig, yn ôl cyfrifiadau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF.

Mae atgyweirio eglwysi hefyd yn creu swyddi ac yn helpu i gynnal a datblygu sgiliau arbenigol sydd o werth i'r sectorau adeiladu a threftadaeth ehangach. Ers 2021, mae'r rhaglen Sgiliau Adeiladu Treftadaeth (gan gynnwys Prentisiaethau Uwch Cynorthwywyr Cyngor ar yr Amgylchedd Hanesyddol, sy'n cael eu rhedeg gan Historic England) yn darparu cyfleoedd i ddiogelu sgiliau adeiladu eglwysi a threftadaeth hanfodol[10].

Mae cyfle hefyd i gynhyrchu mwy o roddion preifat trwy ryddhad treth neu gymhellion ariannol eraill. Yn Ffrainc, lansiodd yr Arlywydd Macron gynllun yn ddiweddar i ddarparu €200 miliwn ar gyfer atgyweiriadau i eglwysi hanesyddol dros bedair blynedd, gyda chymhellion treth newydd sydd i bob pwrpas yn pedwarplygu gwerth rhoddion preifat[11]. Yn y DU, gallai ffyrdd o gynyddu rhoddion preifat i adeiladau eglwysig gynnwys cynllun arian cyfatebol y wladwriaeth, gyda gwerth rhoddion yn dyblu.

**I'W WEITHREDU GAN: Llywodraeth (y DU a llywodraethau datganoledig), cyrff treftadaeth, dyngarwyr**

# 4 AR Y MAP I YMWELWYR



**"Gall gwneud mwy o'u hanes a'u treftadaeth drawsnewid dyfodol eglwysi lleol y DU a hefyd economïau lleol."**

Ffenestr wydr lliw newydd yn eglwys Sant Ioan Fedyddiwr, Scampton

© Matt Limb OBE / Llun Stoc Alamy

Saif eglwys Sant Ioan Fedyddiwr yn Scampton, Swydd Lincoln, filltir o RAF Scampton lle ffurfiwyd Sgwadron y Dambusters. Mae'r eglwys wedi creu capel newydd i'r Awyrlu Brenhinol, gan gynnwys ffenestr wydr lliw a gomisiynwyd yn arbennig, er cof am filwyr a phersonél eraill o'r ganolfan a gwympodd.

***"Mae'r eglwys yn cael tua 1,000 o ymwelwyr y flwyddyn, a disgwylir i'r niferoedd gynyddu'n sylweddol nawr bod prosiect adfer i wella profiad ymwelwyr wedi'i gwblhau."***

**Mae Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr yn un o nifer cynyddol o eglwysi sy'n gwneud y gorau o'u hanes lleol unigryw. Mae eglwysi lleol y Deyrnas Unedig yn rhan o'n treftadaeth bwysicaf. Maent yn cynnwys y casgliad mwyaf o gelf, cerflunwaith a gwydr lliw yn y DU.**

Mae mentrau newydd a chyffrous eisoes yn helpu i roi eglwysi'n fwy cadarn ar y map i ymwelwyr.

Yng Nghymru, mae mwy na 1,500 milltir o lwybrau pererindod sy'n cynnwys cannoedd o eglwysi a chapeli yn rhan o arlwy Croeso Cymru. Yng Ngogledd Iwerddon, mae diddordeb cynyddol mewn treftadaeth eglwysig yn arwain at ddiddordeb o'r newydd yn ei hanes cyfoethog o wydr lliw. Mae 'Champing'™, (sef gwersylla dros nos mewn eglwysi hanesyddol hardd) hefyd yn dod yn fwy poblogaidd ers iddo gael ei lansio yn 2015 gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth yr Eglwysi.

Gall gwneud mwy o'u hanes a'u treftadaeth drawsnewid dyfodol eglwysi lleol y Deyrnas Unedig a hefyd roi hwb i swyddi lleol.

Twristiaeth yw un o'r sectorau pwysicaf yn economi'r Deyrnas Unedig. Yn 2021, gwerth ymweliadau dydd â safleoedd treftadaeth yn Lloegr oedd £5.5 biliwn[12].

Ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol, canfu Visit Britain fod 78% o bobl wedi dewis 'archwilio hanes a threftadaeth' fel sbardun pwysig wrth ddewis unrhyw gyrchfan rhyngwladol am gyfnod byr neu wyliau[13].

***"Dyma leoedd o arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol enfawr. Maen nhw'n rhan o'n treftadaeth yn y DU sy'n perthyn i bob un ohonom."***

**Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, Awst 2023**


© Yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol

**Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr, High Toynton, Swydd Lincoln**

# YR HYN RYDYM YN EI WNEUD

1. *Mae'r tudalennau Archwilio Eglwysi ar ein gwefan yn cynnig pwynt mynediad digidol i dros 3,500 o eglwysi, capeli ac addoldai ledled y DU.*
2. *Yng Ngogledd Iwerddon, mae ein prosiect Treasure Ireland yn helpu i roi eglwysi a chapeli ar y map twristiaeth trwy ddatblygu llwybrau a phrofiadau treftadaeth eglwysig.*
3. *Mae ein Cyfrif Mawr o Ymwelwyr ag Eglwysi yn casglu data newydd ar niferoedd ymwelwyr i ddangos pa mor bwysig yw ymweliadau ag eglwysi ar gyfer twristiaeth leol.*


© Peter Lopeman / Llun Stoc Alamy

**Twristiaid yn ymweld â'r Capel Eidalaidd, Lamb Holm, Orkney**

© Yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol

**Eglwys y Santes Fair, Horncastle, Swydd Lincoln**

# 4 AR Y MAP I YMWELWYR

## YR HYN SYDD ANGEN EI WNEUD

**Mae angen strategaeth genedlaethol newydd i gynyddu ymwelwyr ag eglwysi hanesyddol – treftadaeth o safon fyd-eang ym mhob cwr o'r wlad lle cynigir mynediad am ddim. Dylai'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan weithio gyda'r prif sefydliadau twristiaeth cenedlaethol, gomisiynu astudiaeth genedlaethol ar sut i wneud mwy o dreftadaeth heb ei hail eglwysi'r Deyrnas Unedig.**

Byddai hyn yn darparu syniadau newydd ac atebion ymarferol i alluogi eglwysi i gael eu hyrwyddo'n well i ymwelwyr o'r DU a thramor gan sefydliadau twristiaeth cenedlaethol a lleol. Gallai hefyd ledaenu'r buddion a ddaw yn sgil denu ymwelwyr i leoliadau newydd, gan gynnal economïau lleol.

Mae miloedd o eglwysi rhyfeddol mewn lleoliadau bendigedig. Mae amrywiaeth, harddwch a hanes eglwysi'r Deyrnas Unedig yn galluogi ymwelwyr o'r DU a thramor i ddysgu mwy am ein hanes a'n diwylliant.

Yn Ffrainc, Gwlad Belg, yr Eidal a Sbaen, mae llawer o grwpiau o eglwysi hanesyddol wedi'u dynodi'n Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO. Mae'r brand hynod weladwy hwn yn helpu i ysgogi twristiaeth. Mae llawer o eglwysi a chapeli'r Deyrnas Unedig o bwysigrwydd tebyg ac maent yn haeddu brandio tebyg, er enghraifft eglwysi gwlân Norfolk a Suffolk, tyrau Gwlad yr Haf, neu safleoedd Cristnogol cynnar Cymru a gogledd Prydain.

Mae angen dathlu ein treftadaeth gyffredin anhygoel o eglwysi lleol a'u pensaernïaeth a'u hanes hynod gyfoethog, sy'n dyddio'n ôl ymhell dros 1,000 o flynyddoedd, mewn arddangosfa genedlaethol sy'n cynnwys pedair cenedl y DU gyda Diwrnod Eglwysi Agored cenedlaethol cysylltiedig.

**I'W WEITHREDU GAN: Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sefydliadau twristiaeth cenedlaethol**



Eglwys Sant Saeren, Llanynys, Cymru

© Llywelyn2000 CC-BY-SA-4.0

# 5 EGLWYSI YN AGORED I BAWB

**"Mae gwybod bod eglwys yn cael ei defnyddio gan ymwelwyr yn cynyddu diogelwch trwy atal lladron neu fandaliaid."**

Nid yw Eglwys Sant Saeran yn Llanynys, Rhuthun, Cymru byth dan glo, na hyd yn oed ar gau. Mae'r eglwys yn Nyffryn Clwyd yng nghefn gwlad prydferth Sir Ddinbych.

***"Os nad ydyn ni ar agor, sut gallai pobl ddod i mewn? Mae eglwysi yno i fod yn noddfa ac yn ofod diogel i unrhyw un a phawb pryd bynnag y deuant, beth bynnag fo'u hagwedd meddwl."***

**Fel eglwys Sant Saeran, mae gan lawer o eglwysi bolisi drws agored sy'n caniatáu i bobl ddod i mewn drwy gydol yr wythnos ar gyfer gweddïo a myfyrdod ysbrydol, ymweld neu ddefnyddio'r ystod eang o gefnogaeth gymunedol sydd mor aml yn digwydd mewn adeiladau eglwysig.**

Ond mae llawer o rai eraill o hyd sydd ar agor am oriau cyfyngedig iawn yn unig neu ar agor ar gyfer cynnal gwasanaethau crefyddol yn unig. Mae'r ffigurau diweddaraf o'r ap 'deiliaid allweddau' ar gyfer ymweld ag eglwysi yn dangos, er bod dwy ran o dair o'r 15,580 o eglwysi sydd ar ei system ar agor yn ystod yr wythnos, fod traean yn parhau i fod dan glo [14].

Beth bynnag yw ei statws treftadaeth, mae eglwys dan glo yn creu argraff nad oes ganddi ddiddordeb yn y byd ehangach, gan wneud deialog yn anodd gyda phobl leol ac ymwelwyr a allai fod eisiau ei chefnogi neu ymgysylltu â hi mewn sawl ffordd.

Nid oes dim yn fwy rhwystredig nag i ymwelydd fethu â mynd i mewn i eglwys am heddwch, myfyrio neu weddïo neu i weld drostynt eu hunain y bensaernïaeth a'r hanes y maent wedi darllen amdanynt ar-lein neu mewn arweinlyfr.

Weithiau, mae eglwysi yn pryderu y bydd agor eu hadeilad yn arwain at fandaliaeth, lladrad neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ond mae Ecclesiastical, sef prif yswiriwr eglwysi Eglwys Loegr, yn eu hannog i fod yn agored. Pan ofynnwyd iddynt a ddylid cadw eglwysi dan glo bob amser, eu hateb yw na ddylid; mae gwybod bod eglwys yn cael ei defnyddio gan ymwelwyr yn cynyddu diogelwch drwy atal lladron neu fandaliaid.

***"Peidiwch â'u cloi yn ystod y dydd er mwyn i bobl allu ymweld i ddarganfod yr hanes neu edmygu'r bensaernïaeth, neu eistedd a myfyrio'n dawel."***

**Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, Awst 2023**



Drws eglwys ar gau

## YR HYN RYDYM YN EI WNEUD

1. *Mae amodau ein grantiau'n gofyn bod eglwysi ar agor am 100 diwrnod bob blwyddyn, yn ogystal â'r dyddiau pan fyddant ar agor ar gyfer addoli.*
2. *Mae ein hyfforddiant yn helpu eglwysi i sylweddoli manteision bod ar agor yn rheolaidd i helpu i fynegi eu cenhadaeth ac i ganiatáu i'r gymuned leol ac ymwelwyr ddefnyddio a mwynhau'r adeilad.*
3. *Ym mis Tachwedd 2023, cymerodd 45 o eglwysi o bob cwr o'r Deyrnas Unedig, sef enillwyr a theilyngwyr ein Gwobrau Eglwysi Cenedlaethol, ran mewn diwrnod agored arbennig, gyda'u drysau heb eu cloi, yn barod i ymwelwyr archwilio eu hadeiladau hardd.*




Eglwys Sant Nicolas, East Dereham, Norfolk

UK Churches / Llun Stoc Alamy

**Ymwelodd mwy na hanner oedolion y Deyrnas Unedig (54%) ag eglwysi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf**

Arolwg barn Savanta, Rhagfyr 2023

# 5 EGLWYSI YN AGORED I BAWB

## YR HYN SYDD ANGEN EI WNEUD

**Mae angen i adeiladau eglwysig fod ar agor yn rheolaidd y tu allan i amseroedd addoli i gyflawni eu potensial ym mywyd cymunedau, o fewn cyfyngiadau'r hyn sy'n iawn i'r ardal leol. Er bod angen i eglwysi unigol wneud y penderfyniad hwn, gall enwadau helpu i wneud hyn yn bosibl.**

Os yw adeiladau eglwysig i dderbyn arian cyhoeddus ar gyfer atgyweirio, dylent chwarae rhan weithredol yn y gymdeithas fel adeiladau agored, a thrwy hynny ddangos eu budd cyhoeddus. Gall cyllidwyr ac enwadau annog hyn, gan ddangos i eglwysi'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae hyn yn ei wneud.

Mae rhai cyllidwyr cyhoeddus a phreifat eisoes yn ei gwneud yn un o amodau dyfarnu grant bod yr eglwysi y maent yn eu cefnogi ar agor am ddiwrnodau ychwanegol bob blwyddyn, ar ben yr adegau y maent ar agor ar gyfer addoli. Gan ystyried amgylchiadau lleol, dylai mwy o gyllidwyr fabwysiadu polisi o'r fath.

Gall llawer o eglwysi fod ar agor saith diwrnod yr wythnos. Ond os nad yw'n bosibl i eglwys fod ar agor bob dydd, mae angen darparu gwybodaeth am fynediad, neu sut i gael yr allwedd, ar-lein yn ogystal ag yn yr eglwys.

**I'W WEITHREDU GAN: Eglwysi lleol, cyllidwyr, enwadau**





© Yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol

**Ar y chwith: Eglwys Sant Tanwg, Llandanwg, Gwynedd**
**Ar y dde: Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr, Penymynydd, Sir y Fflint**

# 6 SICRHAU NEWID




**"Mae hyrwyddo'r llu o hanesion o lwyddiant am adeiladau eglwysig yn golygu y gellir eu hystyried yn asedau ac nid yn feichiau."**

**Eglwys Blwyf St Marylebone**

© Lois GoBe / Llun Stoc Alamy

Mae gan eglwys St Marylebone yn Llundain hanes sy'n ymestyn yn ôl bron 900 mlynedd ac mae'n gwneud popeth y gall eglwys ei wneud. Gan wasanaethu cymuned amrywiol, mae'n enwog am ragoriaeth gerddorol a litwrgaidd. Mae'n gartref i Feddygfa GIG a Chanolfan Iacháu a Chwnsela St Marylebone.

***"Mae Eglwys St Marylebone yn ceisio bod yn lle i bawb, ar agor 365 diwrnod y flwyddyn ac wrth wraidd y gymuned yng nghanol Llundain sy'n dwyn ei henw.***

**Mae St Marylebone yn enghraifft wych o eglwys yn y Deyrnas Unedig sydd ar agor ar gyfer addoli ac ar gyfer gwasanaethu pobl leol mewn llawer o ffyrdd rhyfeddol. Fel llawer o'r 38,500 o eglwysi, capeli ac addoldai yn y DU, mae'n llwyddiant ysgubol y mae angen ei ddathlu.**

Mae hyrwyddo'r llu o hanesion o lwyddiant am dreftadaeth adeiladau eglwysig, sut y cânt eu defnyddio a'u pwysigrwydd yn golygu y gellir eu hystyried yn asedau ac nid yn feichiau.

Mae hefyd angen sicrhau bod data a gwybodaeth am adeiladau eglwysig ar gael yn ehangach i lunwyr polisi fel y gallant chwarae rhan allweddol yn nyfodol pentrefi, trefi a dinasoedd.

Ar hyn o bryd, mae'n aml yn anodd iawn dod o hyd i wybodaeth am bob un o'r 38,500 o adeiladau eglwysig yn y Deyrnas Unedig. Yn wahanol i sectorau treftadaeth neu economaidd pwysig eraill, megis tai hanesyddol neu dwristiaeth, gall hyn olygu nad yw cyfraniad mannau addoli'n cael ei werthfawrogi'n ddigonol.

Er enghraifft, er bod nifer y bobl sy'n ymweld ag eglwysi cadeiriol bob blwyddyn ar gael yn rhwydd, ar wahân i ddata ynghylch nifer y bobl sy'n mynychu gwasanaethau crefyddol, ychydig o wybodaeth sydd ar gael am nifer y bobl sy'n defnyddio eglwysi lleol ar gyfer gwasanaethau cymorth cymunedol neu fel ymwelwyr neu dwristiaid.

Mae angen data mwy cyson hefyd sy'n dangos newidiadau yn adeiledd adeiladau eglwysig.

***"Os yw'r Llywodraeth ganolog yn cymryd rhan, fe fydd yn agor trafodaeth genedlaethol a allai dynnu sylw at gyflwr gwarthus adeiledd hanesyddol mawr ein heglwysi."***

**Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, Awst 2023**


© Homer Sykes / Llun Stoc Alamy

**Chwarae gitâr yn Eglwys Dduw Darogan yn Llundain**

## YR HYN RYDYM YN EI WNEUD

1. *Mae ein Harolwg Barn Blynyddol ar Gyflwr yr Eglwysi yn darparu data am agweddau'r cyhoedd at adeiladau eglwysig, sut y cânt eu defnyddio a'u cyllido.*
2. *Rydym yn cydweithio â chyrff treftadaeth cenedlaethol, enwadau ac elusennau adeiladau eglwysig eraill megis yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi a Historic Churches Scotland i sicrhau bod eglwysi'n parhau i fod ar agor ac yn cael eu defnyddio.*
3. *Mae ein cynllun aelodaeth ar gyfer eglwysi yn darparu gwybodaeth werthfawr am eu gwaith a'u cyflwr ac mae aelodaeth o'n cynllun Cyfeillion yn cynyddu nifer y bobl sy'n gallu mynd ati i gefnogi adeiladau eglwysig.*


© Yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol

**Eglwys y Santes Fair, Horncastle, Swydd Lincoln**

# 6 SICRHAU NEWID

## YR HYN SYDD ANGEN EI WNEUD

**Mae angen i'r Llywodraeth, sefydliadau treftadaeth ac enwadau gymryd camau brys. Mae angen cydgysylltu ac arwain ar hyn. Bydd newid hirdymor hefyd yn gofyn am fwy o eiriolaeth a thystiolaeth: mae gan bawb sy'n defnyddio, yn caru neu'n cefnogi adeiladau eglwysig ran i'w chwarae.**

Mae gwaith arloesol gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn helpu i sefydlu dull economaidd cytûn ar gyfer rhoi gwerth ar asedau treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys adeiladau eglwysig, a'r buddion y maent yn eu darparu i bobl a busnesau[15].

Mae amcangyfrif anghenion ariannu'r dyfodol yn flaenoriaeth allweddol. Mae llawer o adeiladau eglwysig rhestredig eisoes yn cael eu harchwilio'n rheolaidd trwy'r system Archwiliad Pum-mlynyddol. Ond mae cwestiynau ynghylch cysondeb Archwiliadau Pum-mlynyddol, a'r wybodaeth a gesglir.

Mae angen trafodaeth well arnom hefyd am fodelau hirdymor ar gyfer adeiladau na all enwadau eu cadw mewn defnydd.

Mae nifer bach o eglwysi hanesyddol nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio ar gyfer addoli rheolaidd yn cael eu gwarchod heddiw gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi, Cyfeillion Eglwysi Digyfaill, Addoldai Cymru (Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru) a Historic Churches Scotland.

Ond mae pen draw i faint o adeiladau eglwysig y gall y sefydliadau hyn eu rheoli heb lawer mwy o arian.

Os nad yw cynulleidfa bellach yn hyfyw, mae perchnogaeth gymunedol trwy ymddiriedolaeth leol neu ranbarthol yn ffordd arall a allai sicrhau bod eglwysi'n goroesi fel adeiladau agored, efallai gyda gofod addoli a ddefnyddir gan amrywiaeth o enwadau. Dylai symud i berchnogaeth gymunedol fod yn ddewis diofyn ar gyfer adeiladau eglwysig.

Gall arweiniad gan enwadau, megis y gefnogaeth a ddarperir gan Eglwys Loegr i'w heglwysi 'mewn trafferth', helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy i fwy ohonynt. Mewn rhai achosion, gall cymunedau Cristnogol newydd hefyd ddod â bywyd newydd i adeilad eglwys.

**I'W WEITHREDU GAN: Bawb**

© Yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol

**Eglwys Sant Hywyn, Aberdaron, Gwynedd**

# YR HYN A DDYWEDODD Y CYHOEDD WRTHYM



Eglwys Sant Clement, Rodel, Ynys Harris

© Joe Dunckley / Llun Stoc Alamy

***"Mae eglwysi yn un o'r ychydig bethau yn eu holl ffurfiau sydd wedi goroesi ers mil o flynyddoedd a mwy. Maen nhw'n llinyn trwy ein holl hanes a'n bywydau ni i gyd, waeth beth fo ein crefydd arbennig neu ddiffyg crefydd."***

Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, Awst 2023

**Ym mis Awst 2023, gwnaethom ofyn i 650 o bobl sy'n helpu i ofalu am adeiladau eglwysig a'r rhai sydd â diddordeb yn eu dyfodol beth oedd y materion pwysicaf y mae adeiladau eglwysig yn y Deyrnas Unedig yn eu hwynebu, yn eu barn nhw.**

Y pethau allweddol a ddywedwyd wrthym oedd:

- *Mae angen mwy o arian ar gyfer atgyweirio adeiladau eglwysig ar frys.*
- *Mae angen mwy o wirfoddolwyr i ofalu am adeiladau eglwysig.*
- *Dylai sefydliadau lleol wneud mwy o ddefnydd o adeiladau eglwysig a hynny at ystod eang o ddibenion.*
- *Mae eglwysi'n un o'r ychydig adeiladau lleol sydd ar ôl sy'n hybu ymdeimlad o gymuned.*
- *Mae angen mwy o glerigwyr i gadw eglwysi ar agor ac mewn defnydd.*
- *Mae eglwysi'n wynebu pwysau ariannol cynyddol, gan gynnwys costau yswiriant uchel, gyda chynulleidfaoedd llai yn methu dod o hyd i'r arian sydd ei angen.*

***"Mae ein siopwr lleol yn dod o Iran, a daeth yma fel myfyriwr. Pan nad oedd ganddo arian ac roedd ar ei ben ei hun mewn gwlad dramor, dywedodd iddo fynd i mewn i eglwys yn Birmingham i gael cysur."***

**Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, Awst 2023**

# CEFNOGAETH ARIANNOL ALLWEDDOL AR GYFER ADEILADAU EGLWYSIG

*Yn ddiweddar, cafwyd mwy o gydnabyddiaeth o bwysigrwydd cyllido treftadaeth werthfawr ein hadeiladau eglwysig.*

***Yn Lloegr yn 2021, cefnogodd Cronfa Ysgogi Treftadaeth y Llywodraeth ar gyfer adferiad ar ôl Covid, sef cynllun untro a weinyddwyd gan Historic England, atgyweiriadau brys ar gyfer gwaith sylweddol mewn dros 200 o fannau addoli.***

*Yn ei strategaeth newydd, mae achub treftadaeth yn un o bedair egwyddor fuddsoddi Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, a disgwylir mwy o gyllid ar gyfer adeiladau eglwysig lleol*[16]*.*

***A thrwy ei rhaglen 'Buildings for Mission' newydd, mae Eglwys Loegr yn darparu £6.2 miliwn ar gyfer mân atgyweiriadau a gwelliannau chynnal a chadw a £2.8 miliwn ar gyfer Swyddogion Cymorth Adeiladau Eglwysig*[17]*. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o enwadau eraill yr adnoddau ariannol angenrheidiol i gynnal eu hadeiladau yn y modd hwn.***

*Mae'r Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig, a gyflwynwyd yn 2002, yn caniatáu i lawer o eglwysi, capeli ac addoldai adennill y TAW ar atgyweiriadau.*

*Ar hyn o bryd, mae'r cynllun wedi'i warantu tan 2025. Mae'n bwysig iawn bod sicrwydd ynghylch ymestyn y cynllun yn cael ei ddarparu cyn gynted â phosibl fel bod eglwysi sy'n cynllunio ac yn cynnal prosiectau atgyweirio yn gallu amcangyfrif costau'n gywir.*

***Yn 2023, gwnaeth y Llywodraeth ddiwygiad i Ddeddf Llywodraeth Leol 1894 gyda'r nod o egluro nad oes dim i atal cynghorau plwyf rhag cyllido eglwysi a mannau addoli eraill. Bydd hyn yn galluogi adeiladau eglwysig i gael eu cyllido'n fwy lleol.***



**Atgyweiriadau yn Eglwys Fethodistaidd Malton, Malton, Swydd Efrog**

© Nigel Holland

# YR HYN Y GALLWCH CHI EI WNEUD

**Yn yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi adeiladau eglwysig mewn angen. Gallwch chi ein helpu ni i fod yn gefn i bob adeilad eglwysig – a'r bobl a'r cymunedau sy'n dibynnu arnynt. I gefnogi ein maniffesto 'Mae Pob Eglwys o Bwys,' gallwch chi wneud y canlynol:**

**1. Cysylltu â'ch Aelod Seneddol**

Mae eich AS yno i'ch cynrychioli chi yn y Senedd, felly mae'n bwysig ei fod/ei bod yn gwybod bod eglwysi a'u dyfodol yn bwysig i chi.

Mae gwahanol ffyrdd y gallwch ddweud wrth eich AS eich bod yn poeni am ddyfodol eglwysi. Gallwch chi:

- Anfon e-bost ato/ati
- Ei wahodd/ei gwahodd i'ch eglwys
- Trefnu cyfarfod

Mae'r wefan Write to Them yn cynnwys gwybodaeth lawn am sut i gysylltu â'ch AS a chynrychiolwyr etholedig eraill.
**www.writetothem.com**

**2. Rhannu'r cyhoeddiad hwn ag eraill**

Ewch i **www.nationalchurchestrust.org/everychurchcounts** i lawrlwytho copïau. Os hoffech gopi printiedig, cysylltwch â ni yn **info@nationalchurchestrust.org**

**3. Rhannu'ch stori**

Os ydych chi'n ymwneud â rheoli eglwys, rydym eisiau clywed gennych chi am y pethau da rydych chi'n eu gwneud ar draws eich cymuned. Rhannwch eich straeon gan ddefnyddio'r hashnod **#EveryChurchCounts** / **#MaePobEglwysOBwys** neu cysylltwch â ni yn **info@nationalchurchestrust.org**

---

## CYFEIRIADAU


1. historicengland.org.uk/images-books/publications/value-of-maintenance/
2. historicengland.org.uk/advice/caring-for-heritage/places-of-worship/churches-sustainability-review/
3. houseofgood.nationalchurchestrust.org/
4. gov.uk/government/news/government-needs-to-better-understand-faith-independent-review-claims (Also see The New Social Covenant by Danny Kruger MP www.dannykruger.org.uk/new-social-covenant)
5. Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru
6. faithandsociety.org/covenant/
7. tinyurl.com/4329abey
8. historicengland.org.uk/images-books/publications/har-2023-registers/
9. houseofgood.nationalchurchestrust.org/
10. historicengland.org.uk/services-skills/training-skills/work-based-training/heritage-apprenticeships/heaa/
11. elysee.fr/emmanuel-macron/2023/09/15/preserver-notre-patrimoine-deplacement-du-president-de-la-republique-en-cote-dor
12. historicengland.org.uk/research/heritage-counts/heritage-and-economy/visitor-economy/
13. historicengland.org.uk/research/heritage-counts/heritage-and-economy/visitor-economy/
14. parishchurches.org/keyholder-app
15. tinyurl.com/4snabebj
16. heritagefund.org.uk/about/heritage-2033-strategy/download
17. churchofengland.org/media/press-releases/church-england-announces-ps9-million-help-parishes-repairs-and-specialist

# Budd am byth.

*Rydym am gadw eglwysi ar agor ac mewn defnydd. Ar gael i bawb.*

*Mae eglwysi, capeli ac addoldai yn fannau trawiadol, cyffrous a rhyfeddol.*

*Credwn y dylid caru a chefnogi'r adeiladau pwysig hyn. Ni waeth a yw pobl yn ceisio myfyrdod tawel, mynediad at wasanaethau cymunedol hanfodol, croeso cynnes, lle i addoli neu weddïo, neu ofod i archwilio.*

*Gan gydweithio ag eglwysi o'r holl enwadau ar draws pedair cenedl y DU, rydym yn helpu i gynnal a chadw'r adeiladau hanesyddol gwych hyn i'w galluogi i ffynnu heddiw ac yfory.*

# OS YDYCH AM GEFNOGI EGLWYSI

## DEWCH YN GYFAILL

Fel un o Gyfeillion yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, byddwch yn ein helpu i ddiogelu mwy o adeiladau eglwysig. Dewiswch o aelodaeth unigol, aelodaeth ar y cyd neu aelodaeth gydol oes.

**nationalchurchestrust.org/membership**

## GWNEWCH RODD

Bydd rhodd untro neu fisol yn cyllido cyfleusterau cymunedol a gwaith cynnal a chadw hanfodol – a sicrhau bod mwy o adeiladau eglwysig yn parhau i fod wrth galon eu cymunedau lleol.

**nationalchurchestrust.org/donate**

## CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

Cofrestrwch ar gyfer yr e-gylchlythyr a dewch o hyd i ni ar gyfryngau cymdeithasol i ddarllen mwy am sut rydym yn achub adeiladau eglwysig y DU.

**nationalchurchestrust.org/enews**





**Yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol**
7 Tufton Street
Llundain
SW1P 3QB

**020 7222 0605** **@NationalChurchesTrust**

**info@nationalchurchestrust.org**

**nationalchurchestrust.org**



Eiddo deallusol y ffotograffwyr perthnasol yw'r lluniau oni nodir yn wahanol. Rydym wedi ceisio olrhain hawlfraint y ffotograffwyr ond nid ydym wedi gallu gwneud hynny ym mhob achos. Nid yw diffyg priodoliad yn awgrymu bod y gwaith yn hawlfraint yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol.



Cyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol © 2024
Rhif elusen gofrestredig: 1119845 | Rhif TAW 450748780